# Cynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y sector ôl-16

## Canllawiau ar weithredu'n effeithiol o 12 Ebrill 2021

Fersiwn 4.0

15 Mawrth 2021

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3

Cynllunio er mwyn sicrhau diogelwch dysgwyr a staff ..... 4

Diogelu dysgwyr a staff agored i niwed ..... 6

Mesurau diogelu ..... 9

1. Lleihau cyswllt rhwng unigolion lle bynnag y bo'n bosibl. ..... 9

2. Lleihau cyswllt ag unigolion sy'n sâl drwy sicrhau nad yw'r rheini sydd â symptomau COVID-19, neu y mae gan rywun yn eu haelwyd neu aelwyd estynedig symptomau, yn mynychu eu coleg neu ganolfan hyfforddi. ..... 13

3. Sicrhau lefelau awyru digonol. ..... 14

4. Sicrhau hylendid dwylo ac anadlol da. ..... 16

5. Cynnal trefniadau glanhau trylwyr, gan gynnwys sicrhau bod arwynebau y cyffyrddir â nhw'n aml yn cael eu glanhau'n fynych, gan ddefnyddio cynhyrchion safonol megis glanedyddion a channydd. ..... 16

6. Gwisgo gorchuddion wyneb a/neu, lle y bo angen, gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol. ..... 17

7. Cymryd rhan yn y Cynllun Profi, Olrhain, Diogelu ..... 18

8. Cyfyngu ar unrhyw achos o'r haint drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol ..... 19

Gweithrediadau darparwr ..... 19

**Cludiant** ..... 20

Canllawiau cenedlaethol yw'r rhain, sy'n berthnasol ledled Cymru. Bydd angen dilyn unrhyw gyfyngiadau lleol, yn ogystal â chynnwys y canllawiau hyn.

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r trefniadau ar gyfer dysgu o 12 Ebrill 2021 ymlaen yn y sector addysg bellach, y sector dysgu seiliedig ar waith a'r sector dysgu oedolion. Maent yn rhan o'n Cynllun Cadernid COVID-19 cyffredinol ar gyfer dysgu ôl-16.

Mae hawl gan bob dysgwr ôl-16 i ddisgwyl cael rhaglen dysgu o ansawdd uchel. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd hyn yn cynnwys model "dysgu cyfunol", sy'n cyfuno elfennau o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell; mae ein fframwaith strategol a'n canllawiau ar ddysgu cyfunol yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr egwyddorion sylfaenol allweddol. Bydd y cydbwysedd rhwng dysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell yn amrywio er mwyn diwallu anghenion amrywiol dysgwyr a'u cymwysterau, a bydd gan ddarparwyr dysgu yr hyblygrwydd i benderfynu sut y caiff hyn ei reoli ym mhob achos.

Er y gall modelau cyflwyno ar-lein ac o bell fod yn fuddiol iawn wrth gynnig profiadau dysgu cyfoethog, mae dysgu wyneb yn wyneb yn rhan hollbwysig o brofiad y dysgwr. Mae'n helpu dysgwyr i feithrin sgiliau cymdeithasol a gweithio mewn tîm, yn rhoi strwythur a threfn arferol iddynt, ac yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno i wneud cynnydd tuag at gyflawni ei nodau dysgu. Bydd dysgwyr yn amrywio o ran eu gallu i weithio'n annibynnol a chynnal eu cymhelliant, felly i lawer, bydd y drefn arferol honno yn hollbwysig er mwyn cynnal eu diddordeb.

Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i ddarparwyr dysgu daro cydbwysedd rhwng diwallu anghenion addysgol dysgwyr, a sicrhau iechyd a diogelwch dysgwyr a staff. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr ddilyn y mesurau diogelu yn y canllawiau hyn a blaenoriaethu camau a fydd yn helpu i leihau trosglwyddiad COVID-19. I golegau a rhai darparwyr dysgu eraill, bydd hyn yn golygu cymhwyso hierarchaeth o fesurau rheoli a fydd yn wahanol ar gyfer mathau gwahanol o ddysgu a dysgwyr.

Hyd yn oed gyda'r gwaith cynllunio mwyaf gofalus, ni ellir dileu risg gweithredu lleoliadau dysgu yn llwyr. Fodd bynnag, rhaid i bob gweithle a safle sydd ar agor i'r cyhoedd gymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19. Wrth gynllunio eu dulliau cyflwyno, dylai darparwyr ddilyn egwyddor sicrhau bod mesurau rheoli cadarn ar waith, fel nad yw dysgwyr na staff yn wynebu mwy o risg o ddod i gysylltiad â COVID-19 yn eu lleoliad dysgu nag y maent yn eu cymuned leol. Bydd dilyn y canllawiau hyn, a chymhwyso eu dyletswyddau iechyd a diogelwch statudol, yn helpu darparwyr i nodi risgiau a'u lliniaru i'r eithaf. Dylai darparwyr fynd ati i hysbysu dysgwyr, rhieni a staff am y mesurau y maent yn eu cymryd, a bod yn barod i drafod pryderon unigol.

Mae rhai agweddau ar y canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol â dysgu sy'n digwydd ar gampysau colegau, neu mewn canolfannau dysgu eraill (gan gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned, elfennau "y tu allan i'r swydd" o raglenni prentisiaeth, a rhaglenni cyflogadwyedd a ddarperir mewn canolfannau). Yn yr achosion hyn, mae gan ddarparwyr dysgu reolaeth dros yr amgylchedd dysgu ac maent yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn ddiogel i'r dysgwyr a'r staff. O ran dysgwyr cyflogedig, gan gynnwys prentisiaid, sy'n dysgu yn y gweithle, mater i'r cyflogwr yw sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ddiogel; ond rhaid i'r darparwr dysgu fodloni ei hun fod ei staff sy'n ymweld â'r gweithle yn ddiogel. Lle mae darparwyr yn trefnu lleoliadau gwaith i ddysgwyr, rhaid iddynt gynnal archwiliadau er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y dysgwyr.

## Cynllunio ar gyfer presenoldeb diogel dysgwyr a staff

Rhaid i ddarparwyr allu dangos sut maent yn rheoli risgiau, yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Yn seiliedig ar asesiadau risg ar lefel y pwnc, os nad yw'n ddiogel i ddysgwr unigol ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, rhaid i'r darparwr roi cynllun ar waith iddo ddilyn ei raglen ddysgu o bell. Nid ydym yn disgwyl i ddarparwyr gynnal asesiadau risg ar gyfer pob dysgwr unigol (ac eithrio dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol, fel y nodir yn y canllawiau hyn), ond rydym yn disgwyl iddynt roi'r cyfle i ddysgwyr nodi eu risgiau eu hunain a thrafod unrhyw bryderon â'u darparwr.

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr wneud y canlynol:

- Cynnal a chyhoeddi asesiad risg llawn a rhoi trefniadau ar waith i reoli risgiau i iechyd a diogelwch, er mwyn sicrhau bod gweithleoedd yn ddiogel o ran COVID-19 cyn y gofynnir i ddysgwyr a staff eu mynychu (gweler y canllawiau isod ar asesu risg, ynghyd â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch);
- Ymgynghori â staff, undebau a rhanddeiliaid;
- Datblygu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr, gan gynnwys ffyrdd clir y gallant ofyn cwestiynau a chodi pryderon;
- O ran dysgu ar gampws neu mewn canolfan, ystyried sut y caiff yr amgylcheddau dysgu a'r ardaloedd cymunedol eu paratoi i fodloni'r gofynion o ran "lleihau cyswllt" a nodir yn y canllawiau hyn. Gweler hefyd y canllawiau ychwanegol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar olrhain cysylltiadau mewn lleoliadau addysg sy'n rhoi canllawiau ar sut i leihau nifer y cysylltiadau sy'n deillio o achos positif yn ddiogel;
- O ran dysgu seiliedig ar waith, cynnal adolygiad iechyd a diogelwch o safleoedd cyflogwyr er mwyn asesu a yw'n ddiogel i staff y darparwr gynnal ymweliadau;
- O ran dysgu oedolion, cynnal adolygiad iechyd a diogel o leoliadau cymunedol a ddefnyddir ar gyfer addysgu a dysgu, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio canolfannau cymunedol amlbwrpas yn ddiogel;
- Sicrhau bod ardaloedd dysgu wedi'u hawyru'n ddigonol ac y cânt eu hawyru rhwng dosbarthiadau, gan ystyried canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;
- Cyfleu'r ymddygiadau disgwyliedig i ddysgwyr, gan gynnwys y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol; y gofynion o ran hylendid megis golchi dwylo yn rheolaidd ac yn drylwyr; beth i'w wneud os byddant yn teimlo'n sâl; beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon; a'r hyn a fydd yn digwydd os na fyddant yn cydymffurfio â'r gofynion;
- Ar gyfer rhaglenni sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithle, gan gynnwys prentisiaethau, cadarnhau gyda chyflogwyr bod trefniadau priodol ar waith o ran golchi dwylo, hylendid anadlol a chadw pellter cymdeithasol, a'u bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020;
- Ystyried sut y dylid adlewyrchu'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo a hylendid anadlol mewn polisïau disgyblu, a sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o unrhyw ganlyniadau diffyg cydymffurfio â'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol;
- Ystyried teithio i ganolfannau dysgu ac oddi yno, gan gyfeirio at ganllawiau ar deithio, canllawiau ar wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, a chanllawiau ar wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus Llywodraeth Cymru;
- Pennu'r gofynion a'r materion o ran glanhau a diheintio megis ailgysylltu cyflenwadau dŵr cyn ac ar ôl ailagor, gan gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth y DU ar ddadhalogi mewn lleoliadau gofal iechyd a chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar risgiau legionella;
- Ystyried y gofynion i ddarparu cyfarpar diogelu personol i ddysgwyr a/neu staff yn unol ag asesiadau risg y darparwr; ac

- Ystyried amserlennu, gan gynnwys amrywio oriau agor ac amseroedd egwyliau, yn ogystal â seibiannau i ddysgwyr a staff yn ystod sesiynau dysgu o bell er mwyn osgoi blinder a achosir gan y sgrin.

Dylai dysgwyr a staff sydd wedi cael brechlyn COVID-19 barhau i ddilyn y mesurau rheoli a nodir yn y canllawiau hyn.

**Y defnydd o orchuddion wyneb**

**Rhaid** i staff a dysgwyr wisgo gorchudd wyneb ym mhob ardal lle mae'n anodd cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr. Mae hyn yn cynnwys wrth symud o amgylch y safle, megis yn y coridorau a'r ardaloedd cymunedol lle na ellir cadw pellter cymdeithasol yn hawdd. Dylai hyn fod yn rhan o asesiad risg y darparwr, gan gydnabod bod cynllun ffisegol ardaloedd cymunedol megis coridorau yn golygu na all grwpiau cyswllt gadw ar wahân i'w gilydd i'r un graddau, a'i bod yn anodd cadw at fesurau rheoli eraill. **Rhaid** gwisgo gorchuddion wyneb ar gludiant penodedig hefyd.

**Rhaid** i bobl eraill, gan gynnwys rhieni, sy'n ymweld ag unrhyw safle wisgo gorchudd wyneb (p'un a ydynt yn mynd i mewn i'r adeilad neu fel arall), gan gynnwys wrth fannau gollwng a chasglu.

Mae ystyried llesiant dysgwyr yn hollbwysig i unrhyw ystyriaeth o'r defnydd o orchuddion wyneb. Gall fod angen darparu gorchuddion wyneb i grwpiau penodol o ddysgwyr na allant gael gafael arnynt fel arall, os cânt eu hargymell gan asesiadau risg. Dylai darparwyr fod yn sensitif i anghenion y rhai a all fod wedi'u heithrio, megis pobl sydd ag anableddau neu anghenion cymhleth eraill sy'n golygu na allant ddefnyddio gorchudd wyneb yn gywir, neu'r rheini sy'n siarad â rhywun byddar neu sydd ag unrhyw lefel o nam ar ei glyw, neu sy'n rhoi cymorth iddo. Dylai darparwyr roi systemau ar waith i sicrhau y gellir rhoi arwydd o eithriad a bod staff yn gwybod pryd a sut i herio'r rheini nad ydynt yn defnyddio gorchudd wyneb.

Nid yw gorchuddion wyneb yn disodli mesurau rheoli mwy effeithiol megis cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo. Lle y caiff penderfyniad ei wneud i ddefnyddio gorchudd wyneb, byddem yn annog unigolion i ddefnyddio gorchuddion wyneb aml-ddefnydd/y gellir eu hailgylchu a'u defnyddio'n gywir, gan orchuddio'r geg a'r trwyn a sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo cyn eu gwisgo ac ar ôl eu tynnu. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell y dylai gorchuddion wyneb fod wedi'u gwneud o dair haen, ond nad oes angen iddynt fod yn fasgiau wyneb o safon feddygol. Mae canllawiau ar fathau o orchuddion wyneb, a sut i'w defnyddio, eu golchi a'u gwaredu'n ddiogel fel sy'n briodol i'w math, wedi'u cynnwys yn y canllawiau ar orchuddion wyneb.

Os bydd cynnydd mewn cyfraddau trosglwyddo yn lleol, neu os bydd clwstwr o achosion mewn coleg, bydd Tîm Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cyngor ynghylch a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol, gan gynnwys defnyddio gorchuddion wyneb.

Lle mae darparwyr yn rhedeg unrhyw gyfleuster sydd ar agor i'r cyhoedd (ac yn cynllunio ar gyfer ailagor cyfleuster yn y dyfodol yn unol â llacio cyfyngiadau COVID-19 ymhellach), megis caffi neu siop trin gwallt, mae gorchuddion wyneb yn **orfodol** ar gyfer staff, dysgwyr, cwsmeriaid ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r cyfleuster. Mae canllawiau ar gyfer y cyfleusterau hyn ar gael yma. Rhaid i ddysgwyr ar leoliadau gwaith a thiwtoriaid sy'n ymweld â nhw ddilyn y rheolau sydd ar waith yn y gweithleoedd hynny.

Ni waeth beth fo polisi eu darparwr, gall dysgwyr a staff ddewis defnyddio gorchudd wyneb er mwyn helpu i leihau'r risg iddyn nhw eu hunain ac i eraill, a dylid eu hannog i wneud hynny os bydd yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus am fynychu eu coleg neu leoliad dysgu. Os bydd unrhyw un yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb am resymau personol unrhyw le yn y coleg, dylid caniatáu iddynt wneud hynny. Gall hyn helpu i gefnogi llesiant ehangach, lleihau pryder a rhoi sicrwydd ychwanegol i rai unigolion, ochr yn ochr â mesurau lliniaru eraill.

## Diogelu dysgwyr a staff agored i niwed

**Dysgwyr a staff eithriadol o agored i niwed neu a fu'n 'gwarchod'**

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Meddygol ar 12 Mawrth 2021 y dylid oedi cyngor i'r rhai sy'n glinigol agored iawn i ddilyn mesurau gwarchod o 1 Ebrill ymlaen. Cyfeiriwch at y Canllawiau ar ddiogelu pobl a ddiffinnir yn glinigol ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed.

Os yw aelod o'r staff yn perthyn i'r categori eithriadol o agored i niwed (y cynllun gwarchod gynt), dylid ystyried gwneud trefniadau iddo weithio gartref fel mater o drefn, p'un a oes mesurau diogelu iechyd cenedlaethol neu leol ar waith ai peidio. Dyma fydd y mesur lliniaru mwyaf priodol er mwyn ystyried ei natur agored i niwed. Dylai darparwyr a chyflogwyr roi ystyriaeth lawn i bob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y gweithle. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid cynnal asesiadau risg ar sail unigol ar gyfer unigolion o'r fath, gan ystyried eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol. Er enghraifft, lle bydd aelod o'r staff sy'n eithriadol o agored i niwed yn barod i ddychwelyd i'r gweithle ac ymgymryd â dyletswyddau wyneb yn wyneb, dylid ei alluogi i wneud hynny cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan ystyried pob mesur rhesymol ac yn unol â mesurau lliniaru ychwanegol yn seiliedig ar ei asesiad risg unigol. Mewn rhai achosion, megis rhai aelodau o staff cymorth a thechnegol, ni fydd yn bosibl gweithio gartref, felly mae'n arbennig o bwysig bod asesiadau risg cyfredol ar waith, a bod yr holl fesurau rhesymol wedi'u hystyried a'u rhoi ar waith. Mae'n bwysig hefyd y caiff pob dysgwr ac aelod o'r staff yn y categori hwn gyfle i drafod unrhyw bryderon a all fod ganddo cyn iddo ddychwelyd i'r lleoliad addysg/gwaith ac, felly, dylid ystyried trefnu cyfarfod ag unigolion er mwyn cynnal y trafodaethau hyn.

Gall staff ddefnyddio adnodd asesu risg Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithlu i gynnal hunanasesiad. Mae yna hefyd lawer o fodelau y gellir eu defnyddio i gefnogi rheolwyr yn ystod trafodaethau â'u timau am ffactorau risg personol unigolyn wrth ddychwelyd i'r gweithle, neu aros yno. Y nod yw helpu i alluogi sgyrsiau o ansawdd da rhwng rheolwyr a chydweithwyr am unrhyw amgylchiadau personol a all gynyddu eu risg yn sgil y coronafeirws, a chytuno ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Mae "Talking with your workers about working safely during the coronavirus pandemic", a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn rhoi canllawiau i gyflogwyr ar sut i gael y sgwrs hon â staff.

Pan fydd dysgwyr a staff a fu'n gwarchod yn flaenorol yn dychwelyd i'r lleoliad addysg/coleg/canolfan dysgu/lleoliad gwaith, mae'n bwysig cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod yr unigolion hynny yn benodol yn dilyn canllawiau llym ar gadw pellter cymdeithasol, a bod y rhai o'u hamgylch yn dilyn canllawiau ar gyfer y gweithle.

Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch a yw cyflwr iechyd unigolyn yn golygu na ddylai fod yn mynychu ei weithle neu leoliad ei ddarparwr dysgu, dylai staff, dysgwyr, rhieni a gofalwyr geisio cyngor gan eu meddyg teulu neu feddyg ysbyty. Efallai y byddant am drafod risgiau mynychu gyda'u meddyg a'u darparwr cyn gwneud penderfyniad, ac mae'n bosibl y bydd eu meddyg yn darparu tystysgrif feddygol i ddangos na ddylent ddychwelyd ar hyn o bryd.

Ni fyddem yn disgwyl i unrhyw aelod o staff sy'n wynebu mwy o risg ond sy'n mynychu'r gweithle gael ei osod gyda dysgwyr na allant gadw at y mesurau cadw pellter cymdeithasol/corfforol yn rhesymol.

**Dysgwyr neu staff sy'n wynebu 'mwy o risg'**

Mae unigolion sy'n wynebu 'mwy o risg' yn wynebu mwy o risg o salwch difrifol o ganlyniad i COVID-19. Mae'r categori hwn yn cynnwys pobl dros 70 oed, menywod beichiog a'r rhai sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd cronig.

Mae'r cyngor ar gyfer y grŵp hwn yr un fath ag ar gyfer y boblogaeth ehangach. Gall dysgwyr a staff yn y categori hwn fynychu eu coleg neu ganolfan, ar yr amod bod mesurau diogelwch ar waith yn unol â'r canllawiau hyn a'r canllawiau ar fesurau rhesymol. Lle y bo'n bosibl, dylid rhoi'r opsiwn i staff wneud y rolau mwyaf diogel sydd ar gael ar y safle, gan eu galluogi i gadw pellter cymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd darparwyr am annog unigolion i gynnal eu hasesiadau risg eu hunain, ac yn cynnig cyfarfod â nhw i drafod eu pryderon.

Os na fyddant yn siŵr a yw eu cyflwr iechyd yn golygu na ddylent fod yn mynychu lleoliad eu darparwr, dylai staff, dysgwyr, rhieni a gofalwyr geisio cyngor gan eu meddyg teulu neu feddyg ysbyty. Mae'n bosibl y byddant am drafod risgiau mynychu gyda'u meddyg neu ddarparwr cyn gwneud penderfyniad.

Ni fyddem yn disgwyl i unrhyw aelod o staff sy'n wynebu mwy o risg ond sy'n mynychu'r gweithle gael ei osod gyda dysgwyr na allant gadw at y mesurau cadw pellter cymdeithasol/corfforol yn rhesymol.

Mae canllawiau i fenywod beichiog a chyflogwyr ar gael ar wefan Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

**Byw gydag unigolyn eithriadol o agored i niwed (y cynllun gwarchod yn flaenorol)**

Os yw dysgwr neu aelod o staff yn byw mewn aelwyd gyda rhywun a fu'n gwarchod yn flaenorol, dylai ddilyn y mesurau cadw pellter cymdeithasol yn agos pan fydd yn mynychu ei goleg neu ganolfan dysgu, a dylai'r dysgwr allu deall a dilyn y cyfarwyddiadau hynny. Efallai na fydd hyn yn bosibl i ddysgwyr nad oes ganddynt alluedd i ddilyn y cyfarwyddiadau ar gadw pellter cymdeithasol. Yn yr achosion hynny, nid ydym yn disgwyl i'r dysgwyr hynny fynychu, a dylid eu cefnogi i ddysgu gartref. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn yng ngoleuni'r cyngor mwyaf cyfredol ar warchod.

**Dysgwyr a staff sy'n pryderu am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb**

Dylid disgwyl i bob dysgwr ac aelod o staff arall, fynychu yn unol â pholisi presenoldeb ac amodau cyflogaeth staff ei ddarparwr ei hun.

Dylai darparwyr ystyried pryderon posibl dysgwyr a staff a all fod yn gyndyn o ddychwelyd neu’n pryderu am wneud hynny, a dylent roi’r prosesau cyfathrebu a chymorth cywir ar waith i fynd i’r afael â hyn. Gall hyn gynnwys y rheini sydd wedi bod yn gwarchod yn flaenorol ond sydd wedi’u cynghori nad oes angen iddynt wneud hyn mwyach, y rheini sy’n byw mewn aelwydydd lle mae rhywun yn wynebu mwy o risg, neu’r rheini sy’n pryderu am y risg gymharol gynyddol yn sgil COVID-19, gan gynnwys unigolion o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, neu unigolion sydd â chyflyrau penodol megis gordewdra a diabetes.

Os bydd dysgwyr neu staff sydd â ffactorau risg sylweddol (neu rieni neu ofalwyr dysgwyr) yn pryderu, rydym yn argymell y dylai’r darparwr drafod eu pryderon, cynnal asesiad risg unigol a rhoi sicrwydd ynghylch y mesurau sy’n cael eu rhoi ar waith i leihau’r risg sy’n gysylltiedig â mynychu. Mae’n bosibl y bydd modd i ddarparwyr roi trefniadau dysgu o bell ar waith ar gyfer rhai rhaglenni.

Gall staff ym mhob lleoliad ddefnyddio ein hadnodd asesu risg ar gyfer y gweithlu i gynnal hunanasesiad o ffactorau risg hysbys COVID-19 a chynllunio camau lliniaru.

**Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Ein nod yw sicrhau nad yw dysgwyr ag anawsterau nac anableddau dysgu yn wynebu anfantais o gymharu â'u cyfoedion.

Bydd dysgwyr ag ADY yn cael budd o ddysgu a chymorth wyneb yn wyneb, a dylai hyn fod yn rhan o'u rhaglen dysgu oni fydd asesiadau risg yn dangos nad yw'n ddiogel i ddysgwyr unigol ddychwelyd ar hyn o bryd. Os na all dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rheini sy'n dilyn rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol ar wahân mewn sefydliadau addysg bellach, gael budd o ddull dysgu cyfunol, dylai darparwyr gynllunio i ddarparu rhaglen lawn o addysgu wyneb yn wyneb. Rhaid i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion dysgwyr yn unol â'u cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Wrth gynllunio i sicrhau y gall dysgwyr ddychwelyd yn ddiogel, mae angen i ddarparwyr ystyried y ffaith y gall dysgwyr ADY ei chael hi'n anodd ymdopi â'r canlynol:

- Dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ar ôl cyfnod hir i ffwrdd. Dylai darparwyr weithio gyda dysgwyr a'u teuluoedd i roi trefniadau addas ar waith i'w paratoi ar gyfer y newid, a all gynnwys dychwelyd yn raddol dros wythnosau cyntaf y tymor, ymweliadau â'r coleg, a straeon cymdeithasol.
- Newidiadau i'w hamgylchedd neu eu harferion dysgu, lle mae'r darparwr wedi gwneud addasiadau (er enghraifft drwy ad-drefnu ystafelloedd dosbarth neu leihau nifer y dodrefn neu gyfarpar).
- Cadw pellter cymdeithasol. Lle y bo'n bosibl, dylid cefnogi ac annog dysgwyr i gadw pellter a pheidio â chyffwrdd â'r staff na dysgwyr eraill. Efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser, neu i rai dysgwyr ag anghenion cymhleth. Dylai colegau sicrhau y caiff dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol eu cadw yn eu grwpiau cyswllt a'u bod yn osgoi cymysgu â charfannau eraill. Dylai staff sy'n darparu cymorth agos i ddysgwyr gynnal asesiadau risg, a dylid darparu cyfarpar diogelu personol iddynt os bydd yr asesiad risg yn dangos bod angen cyfarpar o'r fath (gweler Adran 6 isod) Dylai darparwyr roi canllawiau a gwybodaeth megis posteri mewn fformatau hygyrch, "hawdd eu darllen" a gweledol, a sicrhau bod y rhain ar gael i ddysgwyr a rhieni cyn iddynt ddychwelyd fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl.
- Dilyn y gofynion o ran golchi dwylo a hylendid anadlol a'r protocol "ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golchi dwylo". Dylai darparwyr ystyried pa mor aml y dylai dysgwyr olchi eu dwylo, a neilltuo amser ar gyfer hyn mewn amserlenni, gyda goruchwyliaeth os oes angen. Bydd cynyddu amlder a thrylwyredd arferion hylendid yn helpu i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyswllt rhwng dysgwyr. Efallai y bydd angen gofal personol ar rai dysgwyr hefyd, megis help i fynd i'r tŷ bach; yn yr achosion hyn, dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol fel y nodir mewn man arall yn y canllawiau hyn.
- Mynegi eu symptomau os byddant yn teimlo'n sâl.

Gall arbenigwyr, therapyddion, clinigwyr a staff cymorth eraill ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ymweld â dysgwyr a darparu ymyriadau fel arfer. Dylid rhoi canllawiau clir i'r ymwelwyr hyn ar y gofynion o ran diogelwch ar y safle, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo a hylendid anadlol.

**Sgiliau Byw'n Annibynnol**

Rydym yn disgwyl y dylai dysgwyr sy'n astudio rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol mewn colegau ddilyn rhaglen lawn o ddysgu wyneb yn wyneb. Y rheswm dros hyn yw nad oes gan y garfan hon ddigon o allu i ddysgu o bell heb gymorth gan aelod o'r teulu neu ofalwr, a bod angen y strwythur a'r cymorth y mae amgylchedd y coleg yn eu cynnig arni er mwyn ffynnu a gwneud cynnydd.

Rydym yn cydnabod bod hyn yn cyflwyno heriau ymarferol i golegau, o ystyried bod gan rai dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol gyflyrau iechyd sylfaenol ac efallai na fydd modd cadw pellter cymdeithasol yn llawn mewn perthynas â'r grŵp hwn. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr yn ei chael hi'n

anodd deall y gofynion o ran cadw pellter, a chydymffurfio â nhw, ac efallai y bydd angen gofal personol ar rai, megis help i fynd i'r tŷ bach. Rydym yn disgwyl i golegau wneud popeth o fewn eu gallu i liniaru a rheoli risgiau, yn unol â'r canllawiau hyn. Gall hyn gynnwys cynyddu nifer yr ystafelloedd sydd ar gael ar gyfer Sgiliau Byw'n Annibynnol, ac addasu strwythur rhaglenni dysgu er mwyn helpu i sicrhau diogelwch dysgwyr, (er enghraifft drwy amserlennu gweithgareddau sy'n cynnwys mwy o gyswllt corfforol yn ddiweddarach yn y rhaglen). Ni ddylai dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol a fu'n gwarchod yn flaenorol (gweler uchod) fynychu'r coleg ar hyn o bryd os na allant ddeall y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol na chydymffurfio â nhw.

Lle y gall dysgwyr ddilyn rhaglen dysgu cyfunol, gyda chymorth priodol gan staff a gyda chytundeb eu rhieni neu ofalwyr, gall colegau gynnig rhaglen dysgu o'r fath. Gall hyn fod yn bosibl, er enghraifft, ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Mynediad Lefel 3. Byddem yn disgwyl i'r mwyafrif o'r rhaglen gael ei chyflwyno wyneb yn wyneb ac i gynnydd, cyfranogiad a llesiant y dysgwyr gael eu monitro'n agos, fel y gellir addasu'r patrwm cyflwyno lle bo angen.

## Mesurau diogelu

Rhaid i ddarparwyr dysgu barhau i ddilyn y system o fesurau rheoli a nodir isod.

*Atal:*

1. Lleihau cyswllt rhwng unigolion lle bynnag y bo'n bosibl.
2. Lleihau cyswllt ag unigolion sy'n sâl drwy sicrhau nad yw'r rheini sydd â symptomau COVID-19, neu y mae gan rywun yn eu haelwyd neu aelwyd estynedig symptomau, yn mynychu eu coleg, canolfan hyfforddi neu leoliad gwaith.
3. Sicrhau lefelau awyru digonol.
4. Sicrhau hylendid dwylo ac anadlol da.
5. Cynnal trefniadau glanhau trylwyr, gan gynnwys sicrhau y caiff arwynebau y cyffyrddir â nhw'n aml eu glanhau'n fynych, gan ddefnyddio cynhyrchion safonol megis glanedyddion a channydd.
6. Gwisgo gorchuddion wyneb a/neu, lle y bo'n bosibl, cyfarpar diogelu personol.

*Ymateb i unrhyw achos o'r haint:*

7. Cydymffurfio â strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru a'r GIG a hysbysu staff, rhieni a gwarcheidwaid am rwymedigaethau darparwyr dysgu o dan y strategaeth hon, yn unol â rheolau'r GDPR.
8. Cyfyngu ar unrhyw frigiad o achosion drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol.

# Atal

### 1. Lleihau cyswllt rhwng unigolion lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwyddom fod lleihau nifer y cysylltiadau a lleihau cymysgu rhwng pobl yn lleihau trosglwyddiad COVID-19. Mae amrywiaeth y sector ôl-16, yn nhermau'r amgylcheddau dysgu, y ddarpariaeth a'r dysgwyr dan sylw, yn golygu bod angen ailgyflwyno addysgu wyneb yn wyneb mewn modd pwrpasol sy'n seiliedig ar risg; dyma'r rheswm pam y mae ein canllawiau'n wahanol i'r canllawiau gweithredol ar gyfer y sector ysgolion, ond rydym wedi eu cysoni cyn belled ag y bo'n bosibl ar gyfer grwpiau tebyg o ddysgwyr. Un o nodau allweddol y canllawiau hyn yw sicrhau eglurder ynghylch y ffordd y gall darparwyr ailddechrau addysgu grwpiau gwahanol o ddysgwyr wyneb yn wyneb.

Rydym wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i amlinellu'r gofynion ar gyfer mathau gwahanol o ddysgu a grwpiau o ddysgwyr, fel y nodir isod. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r cyfraddau trosglwyddo COVID-19 uwch ymhlith oedolion o gymharu â phlant; yr angen i sicrhau cydraddoldeb rhwng mathau tebyg o ddysgu mewn lleoliadau gwahanol; ymarferoldeb cyfyngu ar gyswllt rhwng unigolion; a'r risgiau cymharol sy'n gysylltiedig â dysgwyr a staff yn symud rhwng lleoliadau gwahanol. Yr egwyddor gyffredinol y dylid ei chymhwyso at bob grŵp yw lleihau nifer y cysylltiadau rhwng unigolion.

Gall grwpiau cyswllt fod yn effeithiol i leihau nifer y cysylltiadau a lleihau cymysgu. Bydd y ffordd y caiff cyswllt rhwng dysgwyr, cyswllt rhwng dysgwyr a staff, a chyswllt rhwng staff ei leihau yn dibynnu ar amgylchiadau coleg unigol. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru [ar leihau nifer y cysylltiadau](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y lefelau gwahanol o gysylltiadau.

Y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac amgylcheddau addysgu eraill, dylai colegau a darparwyr eraill osgoi digwyddiadau cymdeithasol mawr, a rhaid iddynt gymhwyso'r mesurau cadw pellter cymdeithasol gofynnol o ddau fetr. Mae hyn yn berthnasol i ardaloedd cymunedol megis ffreuturau, neuaddau chwaraeon a derbynfeydd. Dylai staff gadw pellter cymdeithasol wrth ryngweithio â'i gilydd hefyd, gan gynnwys mewn cyfarfodydd staff ac amgylcheddau nad ydynt yn rhai addysgu. Os nad yw hyn yn bosibl, yna dylid rhoi [mesurau lliniaru](#) ar waith megis gosod sgriniau, aildrefnu ardaloedd gwaith, amrywio amseroedd dechrau a gorffen, a/neu ddefnyddio cyfarpar diogelu personol safonol y diwydiant. Y rheswm dros hyn yw bod trosglwyddiad ymhlith staff yn creu risg o drosglwyddiad drwy'r sefydliad, gan roi cydweithwyr mewn perygl.

Mae'n ofynnol i staff gadw pellter cymdeithas oddi wrth ddysgwyr a'u cydweithwyr bob amser, p'un a fyddant yn symud rhwng grwpiau cyswllt gwahanol ai peidio.

Nid oes angen i unigolion sy'n rhan o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd, oni bai bod [cyfyngiadau symud lleol](#) ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny, ac, os felly, dylai pob grŵp gydymffurfio â'r cyfyngiadau hyn.

Gellir trefnu lleoliadau gwaith ar gyfer dysgwyr AB a Hyfforddeiaethau (neu eu hailgychwyn) yn amodol ar gwblhau archwiliadau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg cyfredol. Rhaid i'r darparwr fod yn hyderus bod y gweithle yn ddiogel a bod y cyflogwr yn cydymffurfio â rheoliadau, canllawiau ar gyfer y gweithle ar gyfer y sector perthnasol, a chanllawiau ar fesurau rhesymol. Dylid ystyried polisi arferion gweithio diogel y cyflogwr fel rhan o archwiliadau iechyd a diogelwch. Dylai'r darparwr sicrhau bod y dysgwr yn deall arferion gweithio diogel mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo a hylendid anadlol, a'i fod yn gwybod y dylai gysylltu â'r darparwr os bydd ganddo bryderon am ddiogelwch yn y gweithle.

**(a) Dysgwyr amser llawn mewn colegau AB**

Dylid neilltuo'r garfan hon o ddysgwyr, gan gynnwys y rheini sy'n astudio rhaglenni safon uwch, galwedigaethol a Mynediad, i grwpiau cyswllt. Mae hyn yn gyson â dull gweithredu ysgolion, a dylai helpu colegau i sicrhau bod pobl ifanc mewn colegau yn cael yr un profiad â phobl ifanc mewn ysgolion.

Dylai colegau anelu at gadw grwpiau cyswllt mor fach â phosibl er mwyn lleihau'r risg y caiff COVID-19 ei drosglwyddo a nifer y dysgwyr a all orfod hunanynysu os bydd aelod o'r grŵp yn cael canlyniad positif i brawf. Yn achos rhaglenni galwedigaethol, rhaid i golegau gydymffurfio ag unrhyw [ganllawiau ar gyfer y gweithle](#) ar gyfer y diwydiant perthnasol (ac wrth gynllunio ar gyfer ailagor yn y dyfodol yn unol â llacio cyfyngiadau COVID-19 ymhellach), er mwyn sicrhau bod eu gweithleoedd yn ddiogel o ran COVID-19 wrth gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth. Yn benodol, mewn diwydiannau "cysylltiad agos" megis trin gwallt neu ofal, lle mae'n rhaid i ddysgwyr ddod i gysylltiad corfforol agos â chleientiaid neu eu cyfoedion er mwyn dysgu sgiliau a chwblhau asesiadau, rhaid iddynt wisgo cyfarpar diogelu personol safonol y diwydiant. Gall dysgwyr sy'n astudio pynciau cyswllt agos fel trin gwallt neu therapi harddwch ymarfer technegau ar aelodau eraill o'u grwpiau cyswllt. Rhaid i ddysgwyr gael hyfforddiant ar

ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn ddiogel. Lle mae dysgwyr wedi'u lleoli mewn unrhyw weithle ac os bydd tiwtoriaid yn ymweld â nhw, rhaid iddynt ddilyn y rheolau o ran gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do fel sy'n briodol i'r gweithle.

Cadw pellter cymdeithasol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau trosglwyddiad o hyd, felly, hyd yn oed mewn grwpiau cyswllt, lle y gellir cadw pellter o ddau fetr drwy ad-drefnu'r ystafell ddosbarth, dylid rhoi mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith.

Nid oes angen i golegau ddefnyddio dull gweithredu gwahanol ar gyfer grwpiau 16-19 oed a grwpiau 19 oed a throsodd. Fodd bynnag, mae dysgwyr hŷn sy'n ymuno â grwpiau o ddysgwyr 16-19 oed yn bennaf, megis dysgwyr safon uwch, yn fwy tebygol o ddilyn y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol, ac efallai y byddant am ddefnyddio gorchuddion wyneb er mwyn helpu i ddiogelu eu hunain rhag yr haint, a dylid eu cefnogi i wneud hyn. Mater i'r coleg fydd penderfynu a ddylid gwisgo gorchuddion wyneb a ble, yn dibynnu ar ei asesiad o'r risg ac yng nghyd-destun amgylchiadau lleol.

**(b) Dysgwyr rhan-amser a dysgwyr cyflogedig sy'n dilyn rhaglenni sy'n gysylltiedig â choleg neu ganolfan dysgu, gan gynnwys prentisiaethau**

Bydd gan ddysgwyr yn y categori hwn amrywiaeth ehangach o gysylltiadau â chydweithwyr a chwsmeriaid, sydd y tu hwnt i reolaeth y darparwr. Mae hyn yn golygu nad yw'r model grwpiau cyswllt yn ddigon i reoli'r risg y caiff yr haint ei drosglwyddo.

Rhaid i ddarparwyr gynnal asesiadau risg ar lefel y pwnc a rhoi gofynion diogelwch priodol ar waith megis cyfarpar diogelu personol, gan gydnabod y risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig ag addysgu pynciau "cysylltiad agos". Lle y bo'n bosibl, cadw pellter cymdeithasol ddylai fod y prif fesur rheoli o hyd, yn ychwanegol at bob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19.

Mae dysgwyr sy'n rhyngweithio â chleientiaid neu mewn ffordd "ymarferol" â'i gilydd er mwyn ymarfer technegau, a dysgwyr sy'n treulio amser ar safleoedd cyflogwyr, yn wynebu mwy o risg o ddal COVID-19 a'i drosglwyddo, a dylai asesiadau risg a chamau gweithredu dilynol adlewyrchu hyn.

Rhaid i golegau gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau ar gyfer y gweithle priodol ar gyfer y diwydiant perthnasol wrth gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth, yn ogystal â'r canllawiau ar fesurau rhesymol. Lle mae dysgwyr wedi'u lleoli mewn unrhyw weithle, rhaid iddynt ddilyn y rheolau o ran gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do fel sy'n briodol i'r gweithle.

Gall aseswyr ymweld â phrentisiaid yn y gweithle, yn unol â'r gofynion o ran asesu risg a nodir yn y canllawiau hyn. Rhaid i aseswyr gadw pellter o ddau fetr oddi wrth bobl eraill yn ystod ymweliadau, a gwisgo gorchudd wyneb os yw hynny'n ofynnol yn y gweithle yr ymwelir ag ef o dan y rheolau ar gyfer mannau cyhoeddus dan do.

**(c) Dysgwyr sy'n oedolion mewn lleoliadau cymunedol**

Rhaid i ddysgwyr sy'n oedolion gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr. Lle nad yw hyn yn bosibl oherwydd diffyg lle neu gyfyngiadau eraill, ni ddylid ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb ar hyn o bryd. Lle mae dysgwyr wedi'u lleoli mewn unrhyw leoliad cymunedol, rhaid iddynt hefyd ddilyn y rheolau o ran gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do fel sy'n briodol i'r gweithle. Yn achos colegau, mater i'r coleg fydd penderfynu a ddylid gwisgo gorchuddion wyneb a ble, yn dibynnu ar ei asesiad o'r risg ac yng nghyd-destun amgylchiadau lleol.

**(d) Dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol**

Mae'n debygol y bydd dysgwyr yn y grŵp hwn yn rhyngweithio â nifer cymharol uchel o staff addysgu a chymorth, ac y bydd natur y garfan a'i dysgu yn golygu nad yw cadw pellter cymdeithasol yn opsiwn. Dylai colegau ddefnyddio grwpiau cyswllt ar gyfer dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol, a dylent osgoi cymysgu'r grwpiau hyn â dysgwyr o garfanau eraill ar hyn o bryd. Dylai colegau ystyried cynnal asesiadau risg unigol ar gyfer dysgwyr er mwyn nodi eu risgiau a'u hanghenion penodol o ran iechyd a diogelwch, a dylent gydweithio â rhieni a gofalwyr er mwyn eu helpu i benderfynu a ddylai dysgwyr ag anghenion iechyd cymhleth ddychwelyd i'r coleg ar hyn o bryd. Mae canllawiau ar wahân ar gael ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais, sydd (er eu bod wedi'u hanelu at grŵp oedran gwahanol) yn

rhoi gwybodaeth am reoli mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfarpar diogelu personol yng nghyd-destun pobl ag anghenion ychwanegol.

**(e) Hyfforddeiaethau**

O ran dysgwyr hyfforddeiaethau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl mewn canolfan, gall darparwyr ddefnyddio model grwpiau cyswllt fel y nodir yn (a) uchod.

Ni ddylai unrhyw ddysgwr, na chyflogwr, ar unrhyw gyfrif, deimlo unrhyw bwysau i ddechrau lleoliad gwaith os oes ganddo bryderon am iechyd, diogelwch neu lesiant. Fel rhan o'r adolygiad rheolaidd o gynnydd y bydd y darparwr yn ei gynnal gyda phob dysgwr, dylai'r darparwr sicrhau bod y dysgwr yn deall arferion gweithio diogel, a lle y bo'n bosibl, dylai darparwr y lleoliad gwaith fod yn rhan o'r adolygiad.

Dylai hyfforddeion y mae eu rhaglen yn cynnwys cyfuniad o ddarpariaeth mewn canolfan a darpariaeth seiliedig ar waith gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, yn y ganolfan a'r gweithle. Lle nad yw hyn yn bosibl, a chyn dechrau gweithgarwch mewn canolfan, rhaid i ddarparwyr gynnal asesiad risg a rhoi mesurau lliniaru ar waith yn unol â hynny. Ni ddylid trefnu lleoliadau gwaith lle na all y darparwr fodloni'r gofynion hyn.

Lle mae hyfforddeion wedi'u lleoli mewn gweithleoedd sydd o fewn cwmpas y rheolau o ran gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheolau hyn oni bai eu bod wedi'u heithrio. Rhaid i diwtoriaid neu aseswyr sy'n ymweld â hyfforddeion wisgo gorchudd wyneb hefyd tra byddant ar safle'r gweithle lle y bo'n berthnasol.

**(f) Myfyrwyr addysg uwch mewn sefydliadau AB**

Dylai sefydliadau AB ddefnyddio'r un dull gweithredu ar gyfer eu myfyrwyr AB ag a nodir ar gyfer y grwpiau eraill o ddysgwyr yn y canllawiau hyn, h.y. grwpiau cyswllt ar gyfer dysgwyr amser llawn a mesurau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer dysgwyr rhan-amser.

O ran pob grŵp arall o ddysgwyr, gellir cynnal gweithgareddau cyfoethogi ac allgyrsiol lle y bo'n bosibl o fewn y canllawiau ar leihau cyswllt a nodir uchod, ac yn unol â chynnal asesiadau risg priodol. Wrth gynnal gweithgareddau megis academïau chwaraeon, dylid cyfeirio at ganllawiau'r corff llywodraethu perthnasol a Chwaraeon Cymru, a'u dilyn. Er y gellir cynnal gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd mewn colegau, ni ddylid cynnal cystadlaethau chwaraeon o fewn colegau ar hyn o bryd.

*Arholiadau*

- **Rheoli ymgeiswyr wrth gyrraedd a gadael**
  Wrth i ymgeiswyr gyrraedd cyn amser dechrau arholiadau, bydd angen i chi sicrhau y caiff yr ymgeiswyr hyn eu rheoli ochr yn ochr â myfyrwyr eraill sy'n cyrraedd y coleg neu'r ganolfan dysgu, er mwyn cadw ymgeiswyr arholiadau ar wahân i fyfyrwyr eraill.
  Dylech hefyd sicrhau y dilynir mesurau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer unrhyw ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr arholiad yn hwyr.
  Bydd angen i chi sicrhau bod cynllun ar waith i reoli ymgeiswyr sy'n cyrraedd ac yn gadael yr ystafell arholi a'r safle, yn enwedig gan ei bod yn bosibl y bydd arholiadau'n gorffen ar adegau gwahanol. Wrth lunio'r cynllun hwn, bydd angen i chi ystyried unrhyw ymgeiswyr y mae angen amser ychwanegol arnynt mewn arholiadau.

- **Gosod yr ystafell reoli**
  Dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn eistedd dau fetr oddi wrth ei gilydd. Gall yr ymgeiswyr hyn eistedd yn yr un ystafell ond dylid sicrhau bod dau fetr rhwng pob ymgeisydd. Ar yr amod bod ymgeiswyr yn cadw dau fetr oddi wrth ei gilydd bob amser, yna ni ddylai hyn gyfrif fel cysylltiad at ddibenion profi ac olrhain.
  Nid oes terfyn cyffredinol ar nifer yr ymgeiswyr a all eistedd mewn ystafell, ar yr amod bod y desgiau wedi'u gosod yn gywir. Pennir y terfyn uchaf ar nifer yr ymgeiswyr a all sefyll arholiad mewn ystafell gyda'i gilydd yn unol â'r gofynion o ran gosod desgiau.
  Fel y manylir mewn man arall yn y canllawiau hyn, mae'n bwysig sicrhau awyru da a chynyddu'r awyru i'r eithaf lle bynnag y bo'n bosibl.
  Gall goruchwylwyr gerdded i fyny ac i lawr yr ystafell arholi rhwng y desgiau, ond rhaid hefyd sicrhau bod mannau yn yr ystafell lle y gall goruchwyliwr sefyll o leiaf ddau fetr i ffwrdd o'r

desgiau agosaf a lle y gall weld pob ymgeisydd yn yr ystafell. Os bydd goruchwyliwr yn mynd heibio’n agos i ddesg ond yn treulio’r mwyafrif o’r amser mewn man arall, e.e. wrth flaen neu ar ymylon yr ystafell, ni fydd hynny'n golygu ei fod yn gysylltiad.

- **Goruchwylwyr**
  Gall goruchwylwyr symud rhwng ysgolion, colegau a chanolfannau dysgu gwahanol. Dylent sicrhau eu bod yn lleihau cyswllt ac yn cadw pellter cymdeithasol oddi wrth aelodau eraill o'r staff, a'u bod yn dilyn yr holl brotocolau eraill ar gyfer ymwelwyr, gan gynnwys gorchuddion wyneb.
  Dylai goruchwylwyr gael eu briffio'n llawn cyn yr arholiadau am yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud i leihau cyswllt a chadw cymaint o bellter â phosibl oddi wrth aelodau eraill o'r staff.
  Nid yw'n ofynnol i oruchwylwyr wisgo menig wrth gasglu papurau arholiad gan ymgeiswyr, ond dylent olchi eu dwylo'n drylwyr ac yn amlach na'r arfer, ac yn arbennig ar ôl trin papurau arholiad.

- **Cynnal pellter rhwng staff ac ymgeiswyr**
  Dylai goruchwylwyr ac aelodau eraill o'r staff sefyll ochr yn ochr ag ymgeiswyr wrth ryngweithio â nhw, yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Pan fydd angen rhyngweithio ag ymgeiswyr am fwy na 15 munud, er enghraifft pan fydd ysgrifenyddion/darllenwyr neu unigolion eraill yn rhoi cymorth i ymgeiswyr, dylai staff gadw pellter o ddau fetr lle y bo'n bosibl, er enghraifft drwy ddefnyddio ystafelloedd ar wahân i ymgeiswyr eraill er mwyn gwneud hyn. Lle na fydd hyn yn bosibl, dylent osgoi cyswllt wyneb yn wyneb agos a lleihau unrhyw amser a dreulir o fewn metr i bobl eraill. Efallai na fydd modd rhoi'r trefniadau hyn ar waith wrth weithio gyda rhai ymgeiswyr sydd ag anghenion cymhleth, ac os felly, dylid darparu cymorth addysgol yr ymgeiswyr hyn fel arfer yn ystod arholiadau. Am ragor o wybodaeth, gweler y canllawiau ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a dan anfantais.

## 2. Lleihau cyswllt ag unigolion sy’n sâl drwy sicrhau nad yw’r rheini sydd â symptomau COVID-19, neu y mae gan rywun yn eu haelwyd neu aelwyd estynedig symptomau, yn mynychu eu coleg neu ganolfan hyfforddi.

Ni ddylai dysgwyr na staff fynychu eu coleg, canolfan hyfforddi na gweithle ar unrhyw gyfrif os byddant:

- yn teimlo'n sâl neu os bydd ganddynt unrhyw un o'r symptomau COVID-19 a nodwyd; Os felly, rhaid iddynt hunanynysu ar unwaith a threfnu prawf COVID-19;
- wedi cael prawf positif am COVID-19;
- yn byw mewn aelwyd gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael prawf positif am COVID-19 (os felly, dylai fod yn ymwybodol o'r angen i hunanynysu ar unwaith);
- wedi cael galwad gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn gofyn iddynt hunanynysu.

Mae colegau'n chwarae rôl bwysig o ran cefnogi swyddogion olrhain cysylltiadau i gyflawni eu rôl o bennu cysylltiadau achos positif. Y nod cyffredinol yw lleihau nifer y cysylltiadau sy'n deillio o achos positif mewn modd diogel. Ni fydd un dull gweithredu sy'n addas i bawb, a bydd angen i leoliadau bennu'r ffordd fwyaf effeithiol o roi'r canllawiau ar waith yn unol â'u cyd-destun a'u hamgylchiadau lleol.

Dylai fod gan ddarparwyr bolisi a gweithdrefnau uwchgyfeirio clir ar waith os bydd dysgwyr neu aelodau o'r staff yn dechrau dangos arwyddion symptomau COVID-19 tra byddant yn eu coleg neu ganolfan. Bydd angen i staff, dysgwyr (lle mae ganddynt y gallu) a rhieni/gofalwyr ddeall y polisi a'r gweithdrefnau hyn.

Dylai arwynebau y mae dysgwyr neu aelodau o'r staff sydd â symptomau wedi dod i gysylltiad â nhw gael eu glanhau'n ofalus ac yn drylwyr yn unol â'r canllawiau hyn.

Dylai unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 aros gartref a hunanynysu, yn ogystal â threfnu prawf. Mae canllawiau ar hunanynysu Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau y dylid eu cymryd a'r cyfnodau hunanynysu sy'n ofynnol ar gyfer y rheini ag achosion posibl neu a gadarnhawyd o COVID-19, yn ogystal ag aelodau eu haelwyd/aelwyd estynedig, a dylid darllen y canllawiau hyn yn ofalus, a'u dilyn.

Ni ddylai dysgwyr nac aelodau o'r staff sydd wedi cael prawf Dyfais Llif Unffordd (LFD) positif fynychu lleoliad eu darparwr dysgu, a dylent drefnu prawf PCR cadarnhau.

### 3. Sicrhau lefelau awyru digonol.

Dylai darparwyr sicrhau lefelau awyru digonol. Lle ceir systemau awyru mecanyddol canolog neu leol, dylid addasu systemau ailgylchredeg i ddarparu awyr iach yn unig. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid defnyddio systemau fel arfer. Dylai'r awyru gychwyn cyn dechrau'r diwrnod a pharhau ar ôl i'r dosbarthiadau ddod i ben. Lle mae unedau awyru yn cynnwys hidlyddion, dylid cymryd camau rhagofalus ychwanegol wrth newid yr hidlyddion. Dylid archwilio neu addasu systemau awyru er mwyn sicrhau nad ydynt yn addasu'r lefelau awyru yn awtomatig am fod niferoedd gwahanol o bobl yn bresennol. Dylai darparwyr gyfeirio at ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar systemau awyru.

Mae awyru yn fesur lliniaru allweddol i reoli trosglwyddiad ehangach (mwy na dau fetr) COVID-19 drwy aerosolau rhwng pobl sy'n rhannu'r un ardal dan do. Nid yw awyru yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar drosglwyddiad pellter byr drwy ddefnynnau ac aerosolau (o fewn 1-2 fetr) na throsglwyddiad drwy ddod i gysylltiad ag arwynebau (hyder uchel).

Gallai'r llwyth feirysol uwch sy'n gysylltiedig â phobl sydd â'r amrywiolyn newydd gael effaith sylweddol ar gyfraddau trosglwyddo drwy'r aer, gan fod gwaith modelu gwyddonol blaenorol yn awgrymu bod y llwyth feirysol yn un o'r ffactorau pwysig sy'n pennu'r risg y caiff y feirws ei drosglwyddo drwy'r awyr. Cyn i'r amrywiolyn newydd gael ei nodi, awgrymodd SAGE y byddai 8-10 l/e/y pen yn gyfradd llif awyru ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf o weithleoedd ac amgylcheddau cyhoeddus, yn seiliedig ar nifer y bobl y dyluniwyd y system awyru ar eu cyfer, ond mae canllawiau ar gyfer rhai amgylcheddau yn caniatáu cyfraddau llif is o 5 l/e/y pen. Ers i'r amrywiolyn newydd gael ei nodi, mae SAGE wedi argymell y dylid cynyddu'r cyfraddau llif awyru uchod yn ôl ffactor o 1.7 (70%) i ystyried y cynnydd mewn trosglwyddadwyedd.

Mewn rhai adeiladau presennol a hŷn, efallai na fydd y systemau awyru wedi'u dylunio i gyrraedd y safonau cyfredol ac efallai y bydd angen rhoi mesurau lliniaru ychwanegol ar waith. Fel mesur rhagofalus, argymhellir y dylid cynnwys awyru mewn asesiadau risg diogel o ran COVID-19 a gynhelir mewn unrhyw weithle neu amgylchedd dan do, a mabwysiadu'r mesurau lliniaru angenrheidiol.

Yn y rhan fwyaf o adeiladau, mae'n debygol y bydd cynnal lleithder a thymereddau cyfforddus uwchlaw 40-60% yn fuddiol i leihau gallu'r feirws i oroesi. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hyn yn llai pwysig na'r gyfradd awyru a nodir uchod (hyder canolig).

Lle mae darparwyr yn dibynnu ar awyru naturiol, gan gynnwys agor ffenestri a drysau i ddarparu cyflenwad o awyr iach, dylid parhau â'r arfer hon er mwyn gwella'r awyru. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen taro cydbwysedd rhwng cynyddu faint o awyr iach sy'n mynd i mewn i weithdy neu ystafell ddosbarth gyda chysur thermol (cynnal tymhered rhesymol) a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag agor ffenestri. Dylid bob amser adolygu'r Asesiad Risg Diogelwch Tân cyn cadw drysau mewnol ar agor.

Nid oes rhaid i ffenestri a drysau gael eu cadw ar agor led y pen er mwyn sicrhau digon o awyr iach i ddarparu awyru da. Yn hytrach, gellir eu hagor yn rhannol. Efallai y bydd angen cynghori

staff ar sut i sicrhau'r awyru mwyaf priodol mewn unrhyw leoliad. Gellir sicrhau awyru ychwanegol drwy awyru ystafelloedd dosbarth yn fwy trylwyr rhwng pob dosbarth a defnydd.

Er bod gwella awyru yn fesur rheoli allweddol, dylai darparwyr barhau i sicrhau y caiff mesurau rheoli ehangach, megis cadw pellter cymdeithasol, hylendid a glanhau trylwyr eu rhoi ar waith a'u cynnal.

Dengys tystiolaeth mai drwy ddefnynnau mwy ac aerosolau llai, sy'n cael eu rhyddhau pan fyddwn yn pesychu, yn tisian, yn chwerthin, yn siarad neu'n anadlu, y caiff y feirws ei ledaenu yn bennaf. Felly, mae trosglwyddiad dan do yn fwy cyffredin na throsglwyddiad yn yr awyr agored, o ganlyniad i fwy o amlygiad i ddefnynnau ac aerosolau a chyfraddau gwasgaru is.

Bydd agor ffenestri am o leiaf bum munud yn y bore cyn i bobl ddod i'r gwaith neu cyn i ddosbarthiadau ddechrau, ac eto gyda'r nos pan fydd pawb wedi mynd adref, yn galluogi'r aer i gylchredeg. Lle y bo'n bosibl, dylid agor pob ffenestr am ychydig funudau yn ystod y diwrnod gwaith/coleg er mwyn galluogi trawsawyru – sef gadael i hen aer lifo allan a gadael i awyr iach lifo i mewn.

*Aerdymheru*

Nid oes angen addasu'r rhan fwyaf o systemau aerdymheru, ond os bydd systemau'n gwasanaethau mwy nag un adeilad, neu os byddwch yn ansicr, dylech geisio cyngor gan eich peirianwyr neu gynghorwyr gwresogi, awyru ac aerdymheru.

O ran systemau aerdymheru canolog cwbl fecanyddol, sy'n darparu ac yn echdynnu aer o fwy nag un ystafell, mae'n well osgoi ailgylchredeg yr aer. Dylai pob system awyru fecanyddol ganolog gynnwys opsiwn i ddiffodd y cyfleuster ailgylchredeg a defnyddio cyflenwad o awyr iach yn unig.

O ran systemau mecanyddol mewn ystafelloedd dosbarth unigol, lle mae cyfleusterau ailgylchredeg yn galluogi cyfraddau uwch o **awyr iach** i gael eu darparu i ardal, er enghraifft drwy atal drafftiau oer, yna dylid defnyddio'r dyfeisiau hyn.
Byddai gwyntyllau yn ailgylchredeg yr aer presennol, felly ni chynghorir defnyddio'r rhain.

*Systemau Dŵr*

Mewn adeiladau lle bu cyfyngiadau ar bresenoldeb, neu lle bu llai o bobl yn gweithio, gall dŵr fod yn eistedd yn y system ddŵr o ganlyniad i ddiffyg defnydd, gan gynyddu'r risg o glefyd y llengfilwyr. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar risgiau legionella yn ystod argyfwng y Coronafeirws yn rhoi cyngor ar hyn.

Lle mae'r prif gyflenwad dŵr wedi'i ddiffodd ers i'r safle gau yn sgil y cyfyngiadau symud, pan gaiff ei ailgysylltu, bydd angen fflysio'r system er mwyn gwaredu unrhyw weddillion microbiolegol neu gemegol a allai fod wedi cronni tra roedd y cyflenwad dŵr wedi'i ddatgysylltu.

Fel arfer, bydd angen cymryd y camau canlynol:

- Archwilio unrhyw gyflenwadau dŵr – bydd angen fflysio prif gyflenwadau dŵr y mae angen eu hailgysylltu (am eu bod wedi'u diffodd pan gaewyd y safle) er mwyn gwaredu unrhyw weddillion microbiolegol neu gemegol a allai fod wedi cronni tra roeddent wedi'u datgysylltu.
- Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, sef y Rheoleiddwyr a'r arbenigwyr technegol yng Nghymru a Lloegr, wedi llunio'r cyngor hwn ar gynnal ansawdd dŵr yfed wrth adfer cyflenwadau dŵr ar ôl i safle gau dros dro yn sgil argyfwng COVID-19.
- Cadarnhau a oes angen i chi wasanaethau neu addasu systemau awyru, er enghraifft fel nad ydynt yn gostwng y lefelau awyru yn awtomatig am fod llai o bobl na'r arfer yn bresennol.

- Nid oes angen addasu'r rhan fwyaf o systemau aerdymheru, ond os bydd systemau'n gwasanaethau mwy nag un adeilad, neu os byddwch yn ansicr, gallwch geisio cyngor gan eich peirianwyr neu gynghorwyr gwresogi, awyru ac aerdymheru.
- Tynnu unrhyw wyntyllau o weithfannau, er enghraifft, er mwyn osgoi ailgylchredeg yr aer.
- Agor ffenestri a drysau'n rheolaidd er mwyn annog awyru, lle y bo'n bosibl ac yn ddiogel.

## 4. Sicrhau hylendid dwylo ac anadlol da.

Mae golchi dwylo'n drylwyr ac yn rheolaidd â sebon a dŵr rhedegog neu hylif diheintio dwylo yn ffordd effeithiol o leihau'r risg o ddal COVID-19. Dylai darparwyr atgoffa pob dysgwr, drwy negeseuon, arwyddion a hysbysiadau, am yr angen i lanhau eu dwylo'n rheolaidd, gan gynnwys pan fyddant yn cyrraedd, yn dychwelyd o egwyliau, yn symud i ystafell arall, a chyn ac ar ôl bwyta. Mae'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo. Bydd angen glanhau dwylo'n rheolaidd ac yn drylwyr am y dyfodol agos. Dyma bwyntiau i'w hystyried a'u rhoi ar waith:

- a oes digon o 'orsafoedd' golchi dwylo neu hylif diheintio dwylo ar gael ar y safle er mwyn galluogi pob dysgwr ac aelod o'r staff i lanhau ei ddwylo'n rheolaidd
- goruchwylio'r defnydd o hylif diheintio dwylo o ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'i lyncu. Dylid parhau i helpu dysgwyr ag anghenion cymhleth i lanhau eu dwylo'n iawn
- cynnwys yr arferion hyn yn niwylliant y sefydliad, wedi'u hategu gan ddisgwyliadau o ran ymddygiad, a helpu i sicrhau bod pawb yn deall yr angen i'w dilyn.

Mae'r dull gweithredu "ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golchi dwylo" yn parhau i fod yn bwysig iawn, felly rhaid i ddarparwyr sicrhau bod digon o hancesi papur a biniau ar gael i gefnogi dysgwyr a staff i ddilyn y drefn hon. Yn yr un modd â golchi dwylo, rhaid i ddarparwyr sicrhau bod dysgwyr ag anghenion cymhleth yn cael help i wneud hyn yn iawn, a bod pob dysgwr yn deall bod hyn bellach yn rhan o ddiwylliant eich darparwr.

Mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr ag anghenion cymhleth yn ei chael hi'n anodd cynnal hylendid anadlol da yn effeithiol. Dylid ystyried hyn mewn asesiadau risg er mwyn helpu'r dysgwyr hyn a'r staff sy'n gweithio gyda nhw, ac nid yw'n rheswm ynddo'i hun dros wrthod addysg wyneb yn wyneb i'r dysgwyr hyn.

## 5. Cynnal trefniadau glanhau trylwyr, gan gynnwys sicrhau bod arwynebau y cyffyrddir â nhw'n aml yn cael eu glanhau'n fynych, gan ddefnyddio cynhyrchion safonol megis glanedyddion a channydd.

Dylai darparwyr ddilyn y canllawiau ar lanhau diweddaraf ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd. Dyma bwyntiau i'w hystyried a'u rhoi ar waith:

- rhoi amserlen glanhau ar waith sy'n sicrhau bod trefniadau glanhau cyffredinol trylwyr ar waith, gan gynnwys:
  - glanhau ystafelloedd/ardaloedd cymunedol yn amlach ar ôl iddynt gael eu defnyddio gan grwpiau gwahanol
  - glanhau arwynebau y cyffyrddir â nhw'n aml yn fwy mynych na'r arfer
  - ystyried darparu cynhyrchion glanhau ac annog dysgwyr i lanhau eu desgiau eu hunain cyn ac ar ôl eu defnyddio
- lle y bo'n bosibl, darparu toiledau ar wahân ar gyfer grwpiau cyswllt gwahanol. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd defnyddio hylif diheintio dwylo cyn mynd i mewn i'r toiled a sicrhau bod toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd yn helpu.  Rhaid annog dysgwyr i lanhau eu dwylo'n drylwyr ar ôl defnyddio'r toiled.

## 6. Gwisgo gorchuddion wyneb a/neu, lle y bo angen, gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol.

Mae'n bwysig cofio bod tystiolaeth gref mai cadw pellter cymdeithasol/corfforol, hylendid dwylo a hylendid anadlol (defnyddio hances bapur i ddal pesychiad neu disiad neu orchuddio'r geg â'r trwyn â phenelin neu lawes, ac yna olchi eich dwylo) yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal lledaeniad y feirws. Felly, nid oes angen defnyddio cyfarpar diogelu personol wrth ymgymryd â gweithgareddau addysgol arferol mewn colegau neu ganolfannau. Mae eithriadau wedi'u nodi isod.

*Gorchuddion wyneb*

Rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob sefyllfa lle na ellir cadw pellter o ddau fetr bob amser (ac eithrio wrth fwyta ac yfed). Dylai'r rhain fod yn orchuddion wyneb tair haen o leiaf, fel yr argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd. Mae canllawiau ar fathau o orchuddion wyneb, a sut i'w defnyddio, eu golchi a'u gwaredu'n ddiogel fel sy'n briodol i'w math, wedi'u cynnwys yn y canllawiau ar orchuddion wyneb.

Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o eithriadau dilys, megis pobl sydd ag anableddau neu anghenion cymhleth eraill sy'n golygu na allant ddefnyddio gorchudd wyneb yn gywir, neu'r rheini sy'n siarad â rhywun sy'n fyddar neu sydd ag unrhyw lefel o nam ar ei glyw, neu sy'n darparu cymorth iddo, a dylent fod yn sensitif i'r eithriadau hyn. Dylai darparwyr roi systemau ar waith i sicrhau y gellir rhoi arwydd o eithriad a bod staff yn gwybod pryd a sut i herio'r rheini nad ydynt yn defnyddio gorchudd wyneb.

Lle mae darparwyr yn rhedeg unrhyw gyfleuster sydd ar agor i'r cyhoedd (neu'n cynllunio ar gyfer ailagor y cyfleusterau hyn yn y dyfodol yn unol â llacio cyfyngiadau COVID-19 ymhellach), megis caffi neu siop trin gwallt, mae gorchuddion wyneb yn **orfodol** ar gyfer staff, dysgwyr, cwsmeriaid ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r cyfleuster. Mae canllawiau ar gyfer y cyfleusterau hyn ar gael yma. Rhaid i ddysgwyr ar leoliadau gwaith a thiwtoriaid sy'n ymweld â nhw ddilyn y rheolau sydd ar waith yn y gweithleoedd hynny.

*Achosion a amheuir o COVID-19*

- Dylid gwisgo menig, ffedogau a masg llawfeddygol gwrth-hylif os bydd angen gofal personol uniongyrchol ar rywun sy'n mynd yn sâl gyda symptomau COVID-19.
- Dylid hefyd wisgo cyfarpar diogelu'r llygaid os bydd asesiad risg yn pennu bod risg o hylif yn tasgu i'r llygaid, megis wrth i'r unigolyn besychu, poeri, neu chwydu.
- Dylid gwisgo menig a ffedogau wrth lanhau'r ardaloedd lle mae rhywun yr amheuir bod ganddo COVID-19 wedi bod.

*Gofal personol*

- Dylid parhau i ddefnyddio menig a ffedogau wrth ddarparu gofal personol i ddysgwr. Gall hyn gynnwys gofal ymarferol personol megis golchi, mynd i'r toilet, neu gymorth cyntaf a gweithdrefnau clinigol penodol megis bwydo â chymorth.
- Dylid hefyd wisgo masgiau llawfeddygol gwrth-hylif a chyfarpar diogelu'r llygaid os bydd asesiad risg yn pennu bod risg o hylif yn tasgu i'r llygaid, megis wrth i'r unigolyn besychu, poeri neu chwydu.
- Dylid gwisgo menig, gynau gwrth-hylif, masgiau FFF3 a chyfarpar diogelu'r llygaid wrth gynnal gweithdrefnau gofal sy'n cynhyrchu aerosol, megis sugno.
- Dylid defnyddio menig a ffedogau wrth lanhau cyfarpar neu arwynebau a allai fod wedi'u halogi â hylifau corfforol megis poer neu secretiadau anadlol.

*Dysgu galwedigaethol*

Fel y nodwyd uchod, dylai darparwyr gynnal asesiadau risg ar gyfer darpariaeth dysgu galwedigaethol a seiliedig ar waith, a dylent ddefnyddio cyfarpar diogelu personol safonol y diwydiant er mwyn helpu i leihau'r risg y caiff yr haint ei drosglwyddo. Bydd angen gwneud hyn ar gyfer diwydiannau "cysylltiad agos" a dysgwyr cyflogedig, megis prentisiaid. Rhaid i ddysgwyr a staff gael hyfforddiant ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn ddiogel, fel sy'n briodol ar gyfer eu diwydiant. Lle mae dysgwyr wedi'u lleoli mewn unrhyw weithle ac os bydd ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yn ymweld â nhw, rhaid iddynt ddilyn y rheolau o ran gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do fel sy'n briodol i'r gweithle.

Dylai staff darparwyr ddefnyddio cyfarpar diogelu personol ar sail asesiad clir o'r risg, gan ystyried anghenion y dysgwr unigol. Yn dilyn unrhyw asesiad risg, lle y caiff yr angen am gyfarpar diogelu personol ei nodi, dylid sicrhau ei fod ar gael yn hawdd ac y caiff ei ddarparu. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i darparu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Dylai pob aelod o'r staff ddeall sut i wisgo neu ddiosg cyfarpar diogelu personol yn y drefn gywir, gwaredu gwastraff yn ddiogel a defnyddio'r camau hylendid dwylo cywir i leihau'r risg y caiff yr haint ei drosglwyddo. Sut bynnag, dylid golchi dwylo bob amser cyn gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol.

## Ymateb i unrhyw achos o'r haint

### 7. Cymryd rhan yn y Cynllun Profi, Olrhain, Diogelu

Mae Profi, Olrhain, Diogelu yw gweithio drwy wneud y canlynol:

- profi'r bobl hynny sydd â symptomau'r coronafeirws, gofyn iddynt ynysu oddi wrth eu teulu, eu ffrindiau a'u cymuned, neu ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw, eu haelwyd neu eu haelwyd estynedig hunanynysu tra byddant yn cael prawf ac yn aros am y canlyniad. Gall pobl sydd â symptomau wneud cais am brawf iddyn nhw eu hunain, neu gall rhywun yn eu haelwyd sydd â symptomau wneud cais am brawf. Mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant, gan gynnwys plant dan 5 oed. Mae canllawiau i staff a gwybodaeth am sut i wneud cais am brawf ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
- olrhain y bobl hynny sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â phobl sydd wedi cael prawf positif am y feirws, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau rhagofalus drwy hunanynysu . Mae rhagor o wybodaeth am olrhain cysylltiadau a sut mae'r cynllun yn gweithio ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
- os nad yw'r symptomau'n deillio o'r coronafeirws, sicrhau y gall unigolion a'u cysylltiadau ddychwelyd i'w bywydau arferol cyn gynted â phosibl.
- rhoi cyngor ac arweiniad, yn enwedig os yw'r unigolyn sydd â symptomau neu ei gysylltiadau yn perthyn i'r grŵp gwarchod neu'r grŵp sy'n wynebu mwy o risg.

Drwy leihau cyfraddau trosglwyddo yn ein cymunedau, a nodi'r rheini sy'n wynebu risg o ddatblygu COVID-19 ar ôl dod i gysylltiad agos ag unigolyn positif (e.e. cysylltiad hysbys neu aelod o'r teulu) yn gyflym a gofyn iddynt ynysu, byddwn yn cefnogi'r broses o ailagor ysgolion, colegau a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ymhellach.

Dylai darparwyr atgyfnerthu'r negeseuon hyn ac, yn arbennig, atgoffa pawb sy'n dangos unrhyw un o symptomau'r feirws hunanynysu ar unwaith a threfnu prawf. Dylai'r rheini sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau hunanynysu hefyd.

Yn achos prawf positif, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r unigolyn a brofwyd er mwyn helpu i nodi cysylltiadau posibl. Yna, bydd ail swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r

cysylltiadau hynny ac yn eu cynghori i hunanynysu. Dim ond os byddant yn datblygu symptomau y bydd angen i'r bobl hyn gael prawf.

Lle mae staff wedi dilyn y rheolau o ran cadw pellter cymdeithasol/corfforol a'r mesurau golchi dwylo a hylendid anadlol yn y gweithle a, lle bo angen, wedi defnyddio cyfarpar diogelu personol neu wedi gweithio y tu ôl i sgrin briodol neu bared, mae'n annhebygol y byddent yn cael eu hystyried yn rhan o ymarfer olrhain cysylltiadau at y dibenion hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio, hyd yn oed lle mae gan ddarparwr yr holl fesurau rheoli ar waith, efallai na fydd cyflogeion bob amser yn cofio'r adegau pan fyddant wedi methu â dilyn y mesurau rheoli hyn.

Nid yw prawf positif ar safle yn golygu bod yn rhaid cau'r safle hwnnw. Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd', ac nid oes rheswm dros boeni os yw darparwyr yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus.  Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am olrhain cysylltiadau a phrofi mewn lleoliadau addysgol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r adran hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gadw cofnodion ar staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr, er mwyn helpu i olrhain achosion o COVID-19 a chyfyngu ar frigiadau o achosion. Mae hyn yn berthnasol i sectorau penodol, gan gynnwys lletygarwch, twristiaeth a hamdden, gwasanaethau cysylltiad agos a chyfleusterau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Nid yw'n ofynnol i golegau na darparwyr hyfforddiant gadw'r cofnodion hyn, ond mae'r canllawiau **yn** berthnasol i rai gwasanaethau a ddarperir gan golegau a ddefnyddir gan y cyhoedd, megis siopau trin gwallt, salonau harddwch, cyfleusterau hamdden a bwytai, a ddylai ddilyn canllawiau'r sector er mwyn lleihau'r risg y caiff COVID-19 ei drosglwyddo wrth i'r sectorau hyn ailagor.

Er mwyn cefnogi'r broses o ailagor lleoliadau addysg, mae profion dyfais llif unffordd (LFD) yn cael eu darparu i staff darparwyr a dysgwyr.  Mae canllawiau ar gael drwy'r banc asedau LFD.

### 8. Cyfyngu ar unrhyw achos o'r haint drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol

Gan adeiladu ar Gynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (2020), mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi cyngor penodol ar ymchwilio i glystyrau a brigiadau o achosion o COVID-19 mewn lleoliadau addysgol, a'u rheoli. Mae'r cyngor yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd i ddiogelu unigolion a chymunedau lle ceir brigiadau o achosion, yn ogystal â lleihau lledaeniad yr haint i gymunedau eraill.

## Gweithrediadau darparwr

#### Asesiadau risg

Rhaid i ddarparwr roi pob mesur rhesymol ar waith i ddiogelu staff, dysgwyr ac eraill rhag COVID-19 ar eu safleoedd.

Dylent ailedrych ar eu hasesiadau risg a'u diweddaru, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd hyd yma ac unrhyw arferion a ddatblygwyd eisoes. Bydd hyn yn eu galluogi i ystyried y risgiau ychwanegol a'r mesurau rheoli y dylid eu rhoi ar waith yn barod ar gyfer cyflwyno eu darpariaeth ar ôl Pasg 2021.

Mae'n bosibl y bydd angen i rai campysau, canolfannau neu ardaloedd arbenigol unigol gynnal eu hasesiadau risg unigol, neu ddiweddaru eu hasesiadau risg presennol gan ganolbwyntio ar COVID-19. Dylid cyhoeddi asesiadau risg ar wefan y darparwr, mewnrwyd y staff neu yriant a rennir.

I gael canllawiau ar gynnal asesiadau risg, gweler gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: https://www.hse.gov.uk/news/working-safely-during-coronavirus-outbreak.htm

Mae darparwyr dysgu yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, a rhaid iddynt eu bodloni.

O ran dysgwyr, gan gynnwys prentisiaid, sy'n dysgu yn y gweithle, mater i'r cyflogwr yw sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ddiogel; ond rhaid i'r darparwr dysgu fodloni ei hun fod ei staff sy'n ymweld â'r gweithle yn ddiogel. Rhaid i ddarparwyr prentisiaethau gynnal adolygiad iechyd a diogelwch o safle'r cyflogwr er mwyn pennu sut y gall aseswyr gynnal ymweliadau'n ddiogel, a rhaid iddynt roi cadarnhad i gyflogwyr bod trefniadau hylendid a chadw pellter cymdeithasol priodol ar waith yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Lle mae darparwyr yn trefnu lleoliadau gwaith ar ran dysgwyr, rhaid iddynt gynnal asesiad risg a bodloni eu hunain bod y gweithle yn ddiogel o ran COVID-19.

Dylai darparwyr dysgu weithio gyda staff, rhieni/gofalwyr, dysgwyr a chyflogwyr er mwyn sicrhau bod eglurder ynghylch y trefniadau diwygiedig a'r ffordd y byddant yn gweithio yn ymarferol, a dylai fod ganddynt drefniadau gweithredol ar waith i fonitro bod y mesurau rheoli:

- yn effeithiol;
- yn gweithio yn ôl y bwriad;
- yn cael eu diweddaru'n briodol, gan ystyried unrhyw faterion a nodwyd a newidiadau i gyngor iechyd y cyhoedd.

**Dysgu yn y gweithle**

Mae canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar aros yn ddiogel yn y gwaith ar gael yma. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer rhai diwydiannau penodol, sy'n cael eu hymestyn a'u diweddaru wrth i fwy o sectorau ailagor i fusnes.

Dylai aseswyr gweithleoedd sy'n ymweld â chyflogwyr ymgyfarwyddo ag unrhyw ganllawiau ar gyfer eu sectorau, er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn y dylai cyflogwyr fod yn ei wneud i ddiogelu eu staff.

Os bydd dysgwr yn codi pryderon am ei ddiogelwch yn ei weithle, neu os bydd aseswr yn nodi arferion anniogel (megis hylendid gwael, neu fethiant i gadw pellter cymdeithasol mewn ardaloedd caeedig), dylai'r darparwr uwchgyfeirio'r pryderon hyn i'r cyflogwr. **Ni** ddylai fod yn ofynnol i aseswyr nac aelodau eraill o'r staff sy'n ymwneud â darpariaeth gweithle ymweld â gweithleoedd os nad yw'r darparwr yn siŵr eu bod yn ddiogel.

Gall dysgwyr neu aseswyr roi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am fater yn ymwneud â diogelu pobl rhag COVID-19 yn y gweithle:

- drwy ffonio 0300 790 6787 (mae'r llinellau ar agor rhwng 8:30am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
- ar-lein drwy ddefnyddio ei ffurflen ymholiadau gweithio'n ddiogel.

## Cludiant

Er y caiff cludiant ôl-16 ei ddarparu yn ôl disgresiwn, cydnabyddir bod llawer o golegau'n gwneud trefniadau ar gyfer asesu anghenion teithio dysgwyr 16 oed a throsodd, a'u diwallu. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at y colegau hynny sy'n gwneud trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr, ac maent yn berthnasol i gludiant penodedig o'r cartref i'r coleg (gwasanaethau sy'n cludo dysgwyr i safle'r coleg ac oddi yno yn unig). Mae'n ofynnol i golegau ystyried y canlynol:

- anghenion dysgwyr ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol
- unrhyw anghenion penodol sydd gan ddysgwyr sy'n 'derbyn gofal ' neu a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol gan awdurdod lleol

Mae colegau'n gyfrifol am weithio gyda gweithredwyr y mae ganddynt gontractau â nhw er mwyn sicrhau y caiff y mesurau angenrheidiol eu rhoi ar waith yn unol ag asesiadau risg (a ddylai gynnwys ymgynghori'n briodol ag undebau llafur a staff). Dylai rhieni, gofalwyr a staff chwarae rôl i addysgu dysgwyr ar ymddygiad derbyniol ar gludiant y coleg a thrafnidiaeth gyhoeddus.

*Negeseuon allweddol*

- Dylai colegau, gan weithio gyda gweithredwyr trafnidiaeth ac awdurdodau lleol fel y bo'n briodol, gynnal asesiad risg ar gyfer teithiau cludiant penodedig o'r cartref i'r coleg yn eu hardal leol sy'n ystyried y llwybrau a gaiff eu teithio a'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau; natur y cludiant a ddefnyddir a'r cyfle i'w addasu, a chapasiti cludiant lleol, h.y. y cyfle i gynyddu'r ddarpariaeth. Rhaid i'r asesiad risg gael ei gymeradwyo gan yr unigolyn priodol yn y coleg. Yna, rhaid iddynt weithio drwy'r system o fesurau rheoli a nodir yn yr adran hon a mabwysiadu mesurau mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â'r risg a nodwyd, sy'n addas ar gyfer yr amgylchiadau lleol, ac sy'n galluogi dysgwyr i fynychu eu coleg.
- Dylai pob dysgwr wisgo gorchudd wyneb wrth deithio ar gludiant penodedig o'r cartref i'r coleg (oni bai ei fod wedi'i eithrio'n feddygol).
- Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai dysgwyr, yn ogystal â gyrwyr/cynorthwywr teithwyr, gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid ystyried mesurau eraill megis cynlluniau eistedd dynodedig.
- Nid yw'n ofynnol cynnal grwpiau cyswllt ar gludiant o'r cartref i'r coleg ar yr amod bod grŵp cyson o ddysgwyr yn teithio ar yr un bws bob diwrnod y maent yn mynychu. Lle y bo'n bosibl, ni ddylai cludiant penodedig o'r cartref i'r coleg i wasanaethu mwy nag un campws.
- Dylai colegau sicrhau bod gweithredwyr a dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio gorchuddion wyneb yn ddiogel, megis golchi dwylo cyn ac ar ôl eu gwisgo, a'u gwaredu neu eu storio'n ddiogel, ac ni ddylid ystyried bod y mesurau hyn yn disodli'r mesurau rheoli eraill a hyrwyddir.
- Mae canllawiau cyffredinol ar deithio'n ddiogel yn ystod y pandemig ar gael yma, ac mae canllawiau penodol ar gyfer gweithredwyr trafnidiaeth ar gael yma.
- Yn ystod y cyfnod hwn a chyn belled ag y bo hynny'n ddiogel, dylid annog rhieni, gofalwyr, staff a dysgwyr i ddefnyddio llwybrau teithio lleol. Dylid annog cerdded, beicio, defnyddio sgwteri, ac ati, yn gryf. Yng ngoleuni'r posibilrwydd y bydd cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus yn effeithio ar allu dysgwr i fynychu'r coleg, dylid ystyried pob dull teithio cynaliadwy a llesol.

*Tacsis a cherbydau hurio preifat*

Mae rhai dysgwyr, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn dibynnu ar dacsis neu gerbydau hurio preifat i'w cludo i'r coleg ac oddi yno. Lle y caiff tacsis eu defnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion cludo plant a phobl ifanc i'r coleg ac oddi yno, fel yn achos gwasanaethau bysiau a choetsys penodedig i'r coleg, dylid dilyn y canllawiau ar dacsis a cherbydau hurio preifat. Argymhellir y dylai dysgwyr deithio yn y sedd gefn yn unig mewn tacsis a cherbydau hurio preifat.

Dylid ystyried yn ofalus sut y gellir darparu trefniadau cludiant pwrpasol diogel i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol. Gallai hyn gynnwys cyflwyno protocolau glanhau, gyrru gyda'r ffenestri ar agor (lle y bo'n bosibl) neu ddod o hyd i gerbydau mwy i'w cludo. Dylai colegau gydweithio â'u darparwyr cerbydau hurio preifat lleol mewn perthynas â'r mesurau y maent yn eu rhoi ar waith i ddiogelu dysgwyr, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cludo nifer o ddysgwyr.

Pan fydd angen teithio mewn tacsi neu gerbydau hurio preifat, dylid cynghori dysgwyr i ddilyn cyngor y gyrrwr. Bydd angen rhoi mesurau glanhau a diheintio priodol ar waith hefyd. Ni ddylid defnyddio seddau wyneb yn wyneb, os oes rhai.

Bydd gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru yn gallu hawlio pecyn am ddim o gyfarpar diogelu personol o ansawdd uchel a deunyddiau glanhau cerbydau, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bwriedir i hyn gynyddu hyder gyrwyr a theithwyr eu bod yn teithio'n ddiogel.

## Cyswllt

Dylid anfon unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y canllawiau hyn i FEAD.COVID-19@gov.wales.